**LC566**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002**

Mae'r Gorchymyn hwn yn disodli'r gorchymyn presennol sy'n ymwneud â thaliadau swyddogion canlyniadau ar gyfer gwasanaethau a threuliau mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r gorchymyn hwn mae ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u hystyried. Yn unol â hynny, nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau**

Er nad oes rhwymedigaeth statudol ar y Cynulliad i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â gwneud y gorchymyn hwn ymgynghorwyd â'r Comisiwn.

Deellir mai'r bwriad felly oedd cynnwys datganiad i'r perwyl bod y cyfryw ymgynghoriad wedi'i gynnal yn y rhaglith.

O ystyried nad oedd fersiwn y gorchymyn a osodwyd wedi cynnwys y datganiad hwn yn ôl y bwriad derbynnir y gellir ystyried yr hepgoriad hwn yn fân wall drafftio a gellir cynnwys mewnosod y cyfryw ddarpariaeth mewn memorandwm cywiriadau.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Tachwedd 2002